Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

West Wales Regional Partnership Board

# LLYTHYR NEWYDDION BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

Croeso cynnes iawn i rifyn mis Chwefror Llythyr Newyddion Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Mae'r llythyr newyddion hwn yn tynnu sylw at ddatblygiadau cydgynhyrchu ac ymgysylltu yn Nhîm Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Gweithio mewn partneriaeth gyda **Llywodraeth Cymru**

Working in partnership with **Welsh Government**

## Bwrw Goleuni ar Glefydau Prin - 28 Chwefror



**A wyddech chi?**

- Mae dros 7,000 o glefydau prin wedi'u nodi.
- Bydd clefyd prin yn effeithio ar 1 o bob 17 o bobl yn y DU.
- Mae 300 miliwn o bobl yn fyd-eang yn byw gyda chlefyd prin.
- Dim ond 5% o glefydau prin sydd â thriniaethau.

Mae Alan yn aelod hirdymor o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru ac mae'n aelod allweddol o'r tîm. Sefydlodd Alan Ataxia and Me i godi ymwybyddiaeth o atacsia yng Nghymru, y DU a ledled y byd, ac yntau ei hun yn byw gydag atacsia. Nod Alan yw codi ymwybyddiaeth a chynnig cymorth i'r rhai sydd ag atacsia a'r rhai sy'n rhoi gofal a chymorth i bobl ag atacsia.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Ataxia and Me yma: [Hafan Ataxia and Me -]




## Bwrdd Ymgysylltu â Dinasyddion a'r Trydydd Sector

Rydym bellach wedi cynnal 8 cyfarfod o'r Bwrdd Ymgysylltu â Dinasyddion a'r Trydydd Sector!

Mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal bob yn ail fis, ac wedi ymgysylltu â mwy na 45 o aelodau a sefydliadau cymunedol, ac maent yn darparu llwyfan i drafod a llunio dyfodol gwasanaethau lleol. Rydym yn cyflwyno strategaethau, prosiectau a gwasanaethau, ac mae'r grŵp yn darparu mewnbwn i ysgogi gwelliannau ystyrlon.

Ar 19 Chwefror, cyfarfu'r bwrdd ym Mharc Dewi Sant i ddewis enillydd Gwobr Dewis y Dinasyddion a'r Trydydd Sector yng Ngwobrau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gorllewin Cymru. Ar ôl llawer o drafod, roedd yn anodd iawn dewis enillydd o blith rhestr fer mor anhygoel. Fodd bynnag, rydym yn edrych ymlaen at ddatgelu'r canlyniadau ar 11 Mawrth yn y Gwobrau!

Cafodd y bwrdd hefyd ei friffio gan Rebekah ynghylch yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r Porth Data. Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn darparu dadansoddiad strategol lefel uchel o ddata i lywio anghenion gofal a chymorth dinasyddion ledled Gorllewin Cymru. Mae Tîm Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn diweddaru'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth bob 5 mlynedd, ond yn ei adolygu bob 2.5 mlynedd. Gyda chymorth y Bwrdd Ymgysylltu â Dinasyddion a'r Trydydd Sector a'r ffrydiau gwaith o fewn Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, byddwn yn diweddaru'r asesiad yn ystod y 3 mis nesaf.

Gellir gweld Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 yma: [Asesiad Poblogaeth 2022 - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru]

Mae'r porth data, sy'n cadw data am y boblogaeth, ar gael yma a gallwch ddefnyddio'r data hwn hefyd: [Hafan - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru]

Rydym yn croesawu aelodau newydd i'r bwrdd; mae ein cyfarfod nesaf **ddydd Mawrth 22 Ebrill 2025** a byddem wrth ein bodd yn eich gweld.

Byddwn yn casglu eich barn am y Strategaeth Eiriolaeth a'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar gyfer Gorllewin Cymru yn y cyfarfod hwn. Y tu hwnt i'r cyfarfod hwn, fe welwch nifer o brosiectau a chyfleoedd y gallwch gymryd rhan ynddynt, fel mynd i ddigwyddiadau Llywodraeth Cymru a chyfrannu'n sylweddol at brosiectau sy'n cyd-fynd â'ch diddordebau.

Oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan? **Anfonwch e-bost atom ar wwrpb@sirgar.gov.uk**



















## Beth sy'n digwydd mewn prawf gwaed?




Rydym yn hoff iawn o'r fideo hwn a grëwyd gan yr Hyrwyddwyr Iechyd yn Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin.

Mae'r fideo hwn yn dangos popeth sydd i'w ddisgwyl mewn prawf gwaed, fel eich bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl os bydd angen i chi gael un rywbryd.

Mae croeso i chi rannu'r fideo hwn gyda'ch rhwydwaith i ddangos iddynt beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn mynd i gael prawf gwaed.

Edrychwch arno yma: [Taking Your Blood Test - YouTube]

## Cyfarfod Galw Heibio Cyfathrebu ac Ymgysylltu Gorllewin Cymru

Cyfarfod Galw Heibio Cyfathrebu ac Ymgysylltu misol anffurfiol Gorllewin Cymru fydd hwn. Mae'r cyfarfod yn agored i'r sector cyhoeddus, sefydliadau preifat, sefydliadau'r trydydd sector a grwpiau cymorth. Bydd yr un eitemau ar agenda'r cyfarfod bob tro, gyda'r nod o leihau dyblygu a gwella cyfathrebu/ymgysylltu ar draws y rhanbarth. Bydd yr agenda yn cynnwys:

- Cyflwyniadau
- Unrhyw waith ymgysylltu parhaus, ei bwrpas a'r canlyniadau a fwriedir (e.e. arolygon, ymgyngoriadau, gweithdai neu ymgyrchoedd marchnata ledled Gorllewin Cymru – lle i drafod rhannu adnoddau a nodi cydweithio perthnasol.)
- Unrhyw ddigwyddiadau sy'n mynd rhagddynt ar draws y rhanbarth (e.e. cynulleidfa darged, pwrpas, pwy sy'n cefnogi/mynychu)
- Unrhyw waith ymchwil sydd ei angen (e.e. lle i rannu gwaith ymchwil, ymgysylltu, ymgynghori ac ati a gynhaliwyd yn flaenorol (yn dilyn GDPR))
- Unrhyw Fater Arall

Isod mae'r ddolen ar gyfer y cyfarfod ddydd Mercher 12 rhwng 10am ac 11am. Gofynnir i chi ei rhannu gyda'ch rhwydwaith a allai fod â diddordeb: https://teams.microsoft.com/l/meetup-join/19%3ameeting_NWZmNzY5YjItMjllNC00NTdhLWFmOWYtNjVjZDUwZmY4NjQ4%40thread.v2/0?context=%7b%22Tid%22%3a%22319baa9a-8e8b-4d1e-86ae-f76a403f1c84%22%2c%22Oid%22%3a%22cffdda96-d733-4a38-a989-8f91f263b3e7%22%7d

## Digwyddiad Galw Heibio Cymorth Niwrowahanol Gorllewin Cymru

**Dydd Mercher 26th Mawrth 2025 10am - 4:00pm**

Canolfan Byw'n Dda Sir Gaerfyrddin, Adeilad 1, Parc Dewi Sant, Caerfyrddin, SA31 3HB

(Mynediad am ddim i bawb.)

**Ydych chi'n chwilio am gymorth niwrowahaniaeth yng ngorllewin Cymru?**

Mae gennym ystod o sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yn dod i's digwyddiad i arddangos pa gefnogaeth sydd ganddynt ar gael ledled Gorllewin Cymru.

**Am ragor o wybodaeth am bwy sy'n mynychu, gweler yma:** Gorllewin Cymru Digwyddiad Cymorth Niwroddivergence 2025 – West Wales Regional Partnership Board

**Cofrestrwch am docynnau yma:** https://www.ticketsource.co.uk/west-wales-regional-partnership-board/e-aedmdm

**Ydych chi'n sefydliad, tîm neu grŵp cymorth sy'n cefnogi unigolion niwrowahanol?**

Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan yn ein Digwyddiad Galw Heibio Cymorth Niwrowahanol Gorllewin Cymru. Rydym yn bwriadu dod â chymaint o wasanaethau a grwpiau cymorth at ei gilydd ar gyfer unigolion niwrowahanol a'u teuluoedd. Rydym yn croesawu ceisiadau gan grwpiau cymorth, sefydliadau'r trydydd sector, mentrau cymdeithasol a sefydliadau preifat.

Y llynedd, daeth 400 o unigolion i ddigwyddiad tebyg a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ym mis Mawrth 2024. Eleni, ein nod yw adeiladu ar y llwyddiant, a datblygu digwyddiad rhanbarthol.

Gwybodaeth sydd ei hangen arnom gennych chi:

- Enw eich sefydliad, cynulleidfa a lleoliad
- Yr hyn yr hoffech ei ddarparu ar y diwrnod e.e. stondin gwybodaeth, gweithgaredd, cymorth / cyngor 1-1, arall.

**Cysylltwch i fynegi diddordeb**: wwrpb@sirgar.gov.uk

**I gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiad, gweler yma:** Gorllewin Cymru Digwyddiad Cymorth Niwroddivergence 2025 – West Wales Regional Partnership Board

## Digwyddiadau i Dod

### Diwrnod Cenedlaethol Presgripsiynu Cymdeithasol!

Trefnir gan Cyngor Sir Gar a Bwrdd Iechyd Hywel Dda:

Cadwch y dyddiad i ddathlu Diwrnod Cenedlaethol Presgripsiynu Cymdeithasol ddydd Mercher 19 Mawrth 2025.

Ymunwch â Chyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn y Ganolfan Byw'n Dda yng Nghaerfyrddin!

Bydd cofrestru yn agor am 9:30am er mwyn dechrau am 10:00am, a bydd y digwyddiad yn dod i ben am 12:30pm.

Darperir cinio ysgafn.

Dim ond hyn a hyn o leoedd sydd ar gael, felly archebwch yn gynnar i sicrhau eich lle!

*'Datblygu mewn partneriaeth - ymyriadau llesiant cyfannol, cymunedol seiliedig ar asedau - sy'n gofyn 'beth sy'n bwysig i chi?' yn lle 'beth sy'n bod arnoch chi?'*

E-bost: Tracey.roberts5@wales.nhs.uk

### Digwyddiad Galw Heibio Cymorth Niwrowahanol Gorllewin Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch yma: https://wwrpb.org.uk/en/neurodivergence-support-event-2025/

Cliciwch yma i gofrestru eich diddordeb mewn bod yn bresennol: https://www.ticketsource.co.uk/west-wales-regional-partnership-board/e-aedmdm

Os oes gennych ddiddordeb mewn cael stondin wybodaeth, cysylltwch â ni i fynegi diddordeb: wwrpb@carmarthenshire.gov.uk

### Digwyddiad Heneiddio'n Dda - Llanelli

Trefnir gan Cyngor Sir Gar:

Rydym yn falch o allu cynnal Digwyddiad Heneiddio’n Dda Sir Gâr unwaith eto eleni, ar 3ydd o Ebrill 2025, mewn lleoliad newydd sbon o Theatr Y Ffwrnes, Llanelli.Mae’r digwyddiad wedi’i anelu at y gymuned 50+ yma yn Sir Gaerfyrddin er mwyn i chi ddysgu mwy am y prosiectau, gwasanaethau a gweithgareddau lleol sy’n digwydd ledled y Sir a all chwarae rhan i’ch helpu byw ac i heneiddio’n dda.Rydym wedi trefnu rhaglen o drafodion trwy gydol y digwyddiad. Bydd stondinau gwybodaeth i bori drwyddynt, arddangosiadau i’w gweld, gweithdai a sgyrsiau i gymryd rhan ynddynt, a siaradwyr gwadd i’w gwylio.

Cliciwch yma i gofrestru eich diddordeb mewn bod yn bresennol: Heneddio'n Dda Sir Gâr / Carmarthenshire Ageing Well at Theatrau Sir Gâr-Y Ffwrnes event tickets from TicketSource

### Cynrychiolydd Dinasyddion a'r Trydydd Sector

Os hoffech ddod i'r cyfarfod nesaf ar Dydd Mawrth 22 Ebrill 2025, anfonwch neges atom at wwrpb@sirgar.gov.uk.

## Ydych chi'n ein dilyn ni?

Rydym wedi dechrau tudalen LinkedIn yn ddiweddar. Cofiwch ein dilyn ni a sôn amdanom yn eich postiadau pan fyddwch yn cymryd rhan yn y gwaith a wnawn. Byddem wrth ein bodd yn clywed am hynny!

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
West Wales Regional Partnership Board

on Facebook @PGGCWWCP

on Instagram @PGGCWWCP

on X @PGGCWWCP

on LinkedIn @ West Wales Regional Partnership Board

on our website @ https://www.wwrpb.org.uk/

## Cysylltu â ni!

Os oes gennych gynnwys yr hoffech ei rannu ar draws ein sianeli yn y cyfryngau, neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol, rhowch wybod i ni ar wwrpb@sirgar.gov.uk Y tîm yn edrych ymlaen at glywed gennych chi a datblygu'r llythyr newyddion yn adnodd defnyddiol a llawn gwybodaeth. Bydd eich adborth yn ein helpu i gyflawni hynny, ac yn sicrhau bod y llythyr newyddion yn cael ei ddosbarthu ac yn cael ei ddarllen!

#WWRPB
@PGGCWWCP

Ewch i'n gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf: www.wwrpb.org.uk

Ymholiadau pellach: wwrpb@carmarthenshire.gov.uk